

Size of Wales
Maint Cymru

# Cynllun Strategol| Strategic Plan 2026–2030



# Ein gweledigaeth

Creu planed iach ble mae pobl, coedwigoedd a natur yn ffynnu gyda'i gilydd.

# Our vision

A healthy planet where people, forests and nature



# Ein pwrpas

Cynnal a diogelu coedwigoedd trofannol, ac ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd.


# Our purpose

To sustain and safeguard tropical forests, responding to the nature and climate crisis.

# Yr her

Mae'r argyfwng hinsawdd a natur yn cynyddu'n gyflym, sy'n golygu bygythiad uniongyrchol i gymunedau ar draws Cymru, wrth i rywogaethau ddiflannu a llifogydd a thonnau gwres ddod yn fwy difrifol. Mae gwydnwch lleol yn dibynnu ar iechyd y blaned ehangach, ac eto, mae allyriadau bydeang yn parhau i fod ar y lefelau uchaf erioed, ac mae tymereddau eisoes wedi codi tua 1.4°C. Mae tymheredd eithafol, llifogydd, tannau gwyllt a cholli bioamrywiaeth yn cynyddu ar draws y byd, ac os na fyddwn yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn cyn bo hir, gallai cynhesu byd-eang gyrraedd 2.8-
3.2°C y ganrif hon.[1]

Er mwyn sicrhau dyfodol sefydlog, rhaid i Gymru weithredu gyda gweddill y byd i ddiogelu dyfodol ei hun. Mae hyn yn golygu dileu ei hôl-troed datgoedwigo dramor, a lleihau allyriadau i atal yr ecosystem rhag cwympo a lefelau'r môr rhag codi, a fyddai fel arall, yn dinistrio cymunedau arfordirol a gwledig Cymru. Mae coedwigoedd yn un o'n hamddiffyniadau naturiol mwyaf pwerus yn erbyn newid hinsawdd, ac yn amsugno biliynau o dunelli o garbon bob blwyddyn. Eto, rydym yn eu colli ar gyfradd syfrdanol. Yn 2024 yn unig, dinistriwyd 6.7 miliwn hectar o goedwigoedd glaw trofannol — cyfwerth â 18 o gaeau pêl-droed bob munud.[2] Mae'r lefel hwn o ddinistr yn cyfrifo am 10-15 y cant o allyriadau byd-eang, ac yn ei gwneud hi'n llawer mwy anodd i gadw cynhesu byd-eang o dan 1.5°C.



Dim ond chwech y cant o diriogaeth y Ddaear mae coedwigoedd trofannol yn eu gorchuddio, ond maen nhw'n cefnogi dros hanner yr holl fywyd gwyllt ar y tir, ac yn darparu cartref ac adnoddau hanfodol i filiynau o bobl Frodorol a phobl sy'n ddibynnol ar goedwigoedd.[3] Mae diogelu ac adfer coedwigoedd yn hanfodol er mwyn creu hinsawdd sefydlog, ar gyfer natur, ac i greu cymunedau cryf a gwydn. I adeiladu'r gwydnwch hwn, rydym angen gweithio mewn ffordd sy'n cydnabod ac sy'n parchu cyfiawnder rhywedd a hawliau pobl Frodorol.

Mwyngloddio aur anghyfriethlon, Amazon Brasil
**Illegal gold mining, Brazilian Amazon**
© CAFOD/Hay

Menywod a Phobl Frodorol sydd gan amlaf, yn bennaf gyfrifol am ofalu am goedwigoedd ac eto, maen nhw'n aml yn wynebu rhwystrau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a rhag [redacted]

rymuso m[redacted]
yn arwein[redacted]

tyfu coed a rheoli coedwigoedd, a thrwy barchu gwybodaeth, arweiniad, a hawliau tiroedd Pobl Frodorol, mae ymdrechion i ddiogelu ac adfer coedwigoedd yn dod yn fwy teg, effeithiol, ac yn fwy abl i gynnal coedwigoedd a bywoliaethau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yn 2021, addawodd mwy na 140 o wledydd yng Nghynhadledd Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig (COP26) yn Glasgow i atal a gwrthdroi datgoedwigo erbyn 2030. Heddiw, does dim golwg o'r cynnydd hwnnw, ac mae'r addewid hwnnw mewn perygl o gael ei anghofio. Mae'r cyfnod rhwng 2026–2030 yn cynrychioli'r cyfnod olaf hanfodol i droi'r ymrwymiadau lefel uchel hyn yn newid gwirioneddol, mesuradwy.

Un rheswm mawr pam ein bod yn methu atal datgoedwigo ydy'r farchnad fyd-eang ar gyfer nwyddau sy'n achosi "risg i goedwigoedd", sy'n parhau i wobrwyo cwmnïau am ddinistrio coedwigoedd yn hytrach na'u diogelu. Er gwaethaf ein huchelgeisiau mewn perthynas â'r hinsawdd, mae Cymru'n dal i fod yn rhan o'r broblem hon, oherwydd rydym yn mewnforio pethau fel cig eidion o Dde America, soia, olew palmwydd, coffi a choco- cynhyrchion sydd yn aml yn gysylltiedig â datgoedwigo trofannol. Er mwyn cyrraedd y targed o atal datgoedwigo'n llwyr erbyn 2030, rhaid i Gymru dorri'r cysylltiad hwn, drwy sicrhau nad yw

ein heconomi a'r pethau rydym yn eu prynu yn cyfrannu at ddinistrio coedwigoedd rhagor.

Mae'r strategaeth hon yn egluro sut rydym yn bwriadu ymateb: drwy arwain agenda uchelgeisiol, dan arweiniad y gymuned, i ddiogelu ac adfer coedwigoedd trofannol, cefnogi arweinwyr Brodorol a lleol, ac annog pobl yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill i weithredu. Bydd hyn yn sicrhau nad yw'r ymrwymiad a gafodd ei wneud yn Glasgow yn cael ei anghofio, a bod pobl a choedwigoedd yn gallu ffynnu gyda'i gilydd. Drwy'r gwaith hwn, ein huchelgais yw i Gymru ddod y genedl dim datgoedwigo gyntaf yn y byd, ac i ysbrydoli gwledydd eraill i wneud yr un peth.

Mae'r ffordd hon o weithio yn cyfeirio'n uniongyrchol at y perygl difrifol y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn ei wynebu os bydd coedwigoedd glaw y byd yn diflannu. Trwy fynd i'r afael ag effeithiau difrifol datgoedwigo ar newid hinsawdd a bioamrywiaeth, rydym yn cyflawni ein cyfrifoldeb i sicrhau bod plant heddiw a phlant y dyfodol yn etifeddu Cymru wydn, sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, a phlaned y gellir byw ynddi.

# The challenge

The climate and nature crisis is accelerating, posing a direct threat to communities across Wales, as species decline and floods and heatwaves become more severe. Local resilience depends on the health of the wider planet, yet global emissions remain at record levels and temperatures have already risen by around 1.4°C. Around the world, extreme heat, flooding, wildfires and biodiversity loss are escalating, and without urgent action, global warming could reach 2.8-3.2°C this century.[1]

To secure a stable future, Wales must act globally to protect itself locally. This means eliminating its international deforestation footprint and slashing emissions to prevent the ecosystem collapse and sea-level rise that would otherwise devastate Welsh coastal and rural communities.

Forests are among our most powerful natural defenses against climate change, absorbing billions of tonnes of carbon every year. Yet, we are losing them at an alarming rate. In 2024 alone, 6.7 million hectares of primary tropical rainforest were destroyed - the equivalent of 18 football pitches every minute.[2] This destruction accounts for 10-15 per cent of global emissions and seriously undermines our chances of limiting global warming to 1.5°C.

Tropical forests cover just six per cent of the Earth's land, but they support over half of all land-based wildlife and sustain millions of Indigenous and forest-dependent people.[3] Protecting and restoring forests is essential for climate stability, nature, and resilient communities. Achieving this resilience requires approaches that recognise and uphold gender justice and Indigenous rights. Women and Indigenous Peoples are often at the forefront of forest stewardship, yet they frequently face barriers to decision-making and access to resources.



Arweinydd ifanc o Genedl y Wampfs, Amazon Periw

**A young leader from the Wamp1s Nation, Peruvian Amazon**

© GTANW/EFE/Bryan Rupa Flores



By empowering women as leaders in tree-growing and forest management, and by respecting the knowledge, leadership, and land rights of Indigenous Peoples, forest protection and restoration efforts become more equitable, effective, and capable of sustaining both forests and livelihoods for generations to come.

In 2021, more than 140 countries pledged at the **UN** Climate Conference (COP26) in Glasgow to halt and reverse forest loss by 2030. Today, progress is dangerously off track, and that promise risks being forgotten. The 2026-2030 period represents the critical final window to turn these high-level commitments into real, measurable change.

A major driver of this failure is the global market for "forest-risk" commodities, which continues to incentivise destruction over protection. Despite our climate ambitions, Wales still contributes to this crisis by importing products such as beef from South America, soy, palm oil, coffee and cacao, often produced at the expense of the world's tropical forests. If we are to meet the 2030 zero deforestation goal, we must decouple our economy from deforestation and ensure that our consumption at home no longer fuels destruction abroad.

This strategy sets out our response: a bold, community-led agenda to protect and restore tropical forests, support Indigenous and local community leadership, and mobilise action from Wales to the world, ensuring the commitment made in Glasgow does not fade, and that people and forests can thrive together. Through this work, our ambition is for Wales to become the world's first deforestation-free nation and inspire other countries to follow.

This approach directly addresses the existential threat that future generations face from the loss of the world's rainforests. By tackling the devastating impacts of deforestation on climate change and biodiversity, we are fulfilling our responsibility to ensure that the children of today and tomorrow inherit a resilient, globally responsible Wales and a habitable planet.

# Ein taith hyd yn hyn

Rydym yn elusen fechan ond effeithiol, gyda thîm ymroddedig sydd yn gweithio i geisio diogelu coedwigoedd, addysgu pobl am yr hinsawdd, codi eu llais i gefnogi newid a rhannu gwybodaeth gyda'r cyhoedd i godi ymwybyddiaeth a dylanwadu ar benderfyniadau.



Wampís elder, **Roberto Gonzales Anamaría**, hynafwr Wampís © GTANW y Florence Goupil

Cawsom ein sefydlu yn 2009, a daethom yn elusen gofrestredig yn 2011. Ni oedd y sefydliad cyntaf yng Nghymru i arwain ymdrech genedlaethol i fynd i'r afael â datgoedwigo trofannol a newid hinsawdd. Ein nod gwreiddiol oedd helpu i gefnogi Pobl Frodorol a chymunedau lleol i ddiogelu ardal o goedwig o faint Cymru — carreg filltir y gwnaethom ei chyrraedd yn 2013.

Ers hynny, rydym wedi dod tyfu i ddod yn llais pwysig dros ddiogelu coedwigoedd ar draws y byd, dros gefnogi Pobl Frodorol, a thros hyrwyddo cyfiawnder hinsawdd. Rydym wedi adeiladu partneriaethau cryf ac wedi creu model integredig sy'n cysylltu addysg, newid polisi, a gweithredu. Yr hyn sy'n gwneud ein gwaith yn unigryw yw ein bod yn cyfeirio at y pethau sy'n achosi datgoedwigo mewn gwledydd sydd gyda choedwigoedd glaw trofannol, ac at yr atebion sydd eu hangen yng Nghymru ac ar draws y byd.

Trwy ein partneriaethau ym Mheriw, Brasil, Kenya, Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo, Indonesia, Uganda, a Borneo, rydym wedi cefnogi Pobl Frodorol a chymunedau lleol i ddiogelu dros 3.5 miliwn hectar o goedwigoedd trofannol, amddiffyn hawliau eu tiroedd, ac i gryfhau eu gwydnwch mewn perthynas â'r hinsawdd. Yn allweddol, mae ein gwaith wedi bod yn helpu i leihau torri coed yn anghyfreithlon mewn ardaloedd gwarchodedig ac
mewn parc cenedlaethol, a sicrhau bod y safleoedd bioamrywiaeth pwysig hyn yn parhau i fod heb eu dinistrio ac yn ddigyffwrdd ar gyfer y dyfodol. Mae ein rhaglenni tyfu coed wedi dosbarthu bron i 29 miliwn o eginblanhigion yn Kenya ac Uganda, wedi adfer ecosystemau sydd wedi dirywio, wedi atafaelu dros 1.4 miliwn tunnell o $CO_2$, ac wedi cefnogi bywoliaethau cynaliadwy, yn enwedig ar gyfer ffermwyr a menywod.

Ym Mhrydain, rydym wedi symud yn nes at y nod o ddod yn genedl dim datgoedwigo, trwy ddylanwadu ar bolisïau, caffael cyhoeddus ac arferion busnes, tra'n gweithio gydag ysgolion, cynghorau, a chymunedau. Mae addysg yn parhau i fod yn ganolog i'n gwaith, ac yn galluogi pobl ifanc i gysylltu materion byd-eang gyda gweithredu'n lleol. Fel sefydliad, rydym wedi cryfhau llywodraethu, wedi amrywio ein ffrydiau incwm, wedi dyblu ein staff ac wedi integreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a chyfiawnder hinsawdd ar draws ein holl waith.

Gyda'i gilydd, mae'r ymdrechion hyn yn ein gosod ni fel un o'r sefydliadau mwyaf blaenllaw yng Nghymru, sy'n cysylltu

beth mae pobl yn ei wneud yn lleol gyda chyfiawnder hinsawdd ar draws y byd.



sizeofwales.org.uk

# Our journey so far

We are a small but impactful charity with a dedicated team working across forest protection, climate education, advocacy, and communications.

Founded in 2009 and registered as a charity in 2011, we were the first organisation in Wales to mobilise a national response to tropical deforestation and climate change. Our original aim was to help support Indigenous Peoples and local communities protect an area of forest equivalent to the size of Wales, a milestone we reached in 2013.

sizeofwales.org.uk

Since then, we have grown into a strategic advocate for global forest protection, Indigenous solidarity, and climate justice, building strong partnerships and a holistic model that links education, policy change, and action. Our approach is unique in addressing both the causes of deforestation in tropical forest countries and the solutions required in Wales and globally.

Through partnerships in Peru, Brazil, Kenya, the DRC, Indonesia, Uganda, and Borneo, we have supported Indigenous Peoples and local communities to protect over 3.5 million hectares of tropical forest, defend land rights, and strengthen climate resilience. Crucially, our work has been helping to reduce illegal logging within protected areas and a national park, ensuring that these vital biodiversity strongholds remain intact for the future. Our tree-growing programmes have distributed nearly 29 million seedlings in Kenya and Uganda, restored degraded ecosystems, sequestered over 1.4 million tonnes of $CO_2$, and supported sustainable livelihoods, particularly for farmers and women.

In Wales, we have advanced the goal of becoming a deforestation-free nation by influencing policy, public procurement, and business practices, while engaging schools, councils, and communities. Education remains central to our work, empowering young people to connect global issues with local action. Organisationally, we have strengthened governance, diversified funding, doubled staff capacity, and embedded equality, diversity, inclusion, and climate justice across all our work.

Together, these efforts position us as a national leader in linking local action to global climate justice.






# Ein nodau Strategol

Mae ein nodau wedi'u cysylltu'n agos ac yn cefnogi ei gilydd - mae cynnydd mewn un yn dibynnu ar gynnydd yn y lleill. Mae coedwigoedd sy'n ffynnu, dinasyddion wedi'u grymuso, marchnadoedd sy'n gyfeillgar i goedwigoedd ac arweinwyr cenedlaethol yn gweithio gyda'i gilydd i greu cylch o effaith sy'n hyrwyddo'r hinsawdd a natur yng Nghymru ac ar draws y byd.

# Our strategic goals

Our goals are deeply interconnected and mutually reinforcing - success in any one relies on progress in the others. Thriving forests, empowered citizens, forest friendly markets and national leadership together create a cycle of impact that advances both climate and nature globally and locally.



Betty Shilo, Cadeirydd y grwp menywod, with
Deborah Nabolubi, gender champion, Uganda
**Betty Shilo, chair of women's group, with**
**Deborah Nabolubi, gender champion, Uganda**
© METGE/Kalaz Media

## Ein nodau Strategol

# Nod 1

## Diogelu coedwigoedd, adfer coedwigoedd a thyfu coed

Gweithio mewn partneriaeth gyda Phobl Frodorol a chymunedau lleol ar draws y byd i fynd i'r afael a datgoedwigo trofannol, a thyfu miliynau o goed fel bod coedwigoedd a chymunedau'n ffynnu.

Pobl Frodorol a chymunedau lleol yw gwarchodwyr mwyaf effeithiol coedwigoedd trofannol. Mae tystiolaeth gryf yn dangos bod coedwigoedd o dan eu rheolaeth nhw yn profi cyfraddau datgoedwigo llawer is a'u bod nhw hefyd, yn diogelu bioamrywiaeth ac yn storio symiau enfawr o garbon. Er gwaethaf y r61 bwysig mae Pobl Frodorol a chymunedau lleol yn ei chwarae, maen nhw'n wynebu bygythiadau difrifol, ac yn derbyn llai nag un y canto gyllid hinsawdd.

**Yn nod 1, byddwn yn ceisio cyflawni'r canlynol:**

- Adeiladu partneriaethau tymor hir gyda Phobl Frodorol a chymunedau lleol yn seiliedig ar ymddiriedaeth
- Cefnogi hawliau tiroedd, mapio tiriogaethau, a diogelu hawliau Pobl Frodorol
- Cryfhau bywoliaethau cynaliadwy a diogelu treftadaeth ddiwylliannol, a chanolbwyntio ar gefnogi menywod a phobl ifanc
- Cefnogi adfer tir sydd wedi'i ddifrodi ac amddiffyn ecosystemau coedwigoedd mewn ardaloedd sydd fwyaf agored i newid hinsawdd, trwy weithio mewn partneriaeth gyda chymunedau lleol i dyfu coed, adfer cynefinoedd, a sicrhau bod ardaloedd gwarchodedig yn fwy gwydn.
- Cryfhau lleisiau Pobl Frodorol a chymunedau, a rhannu eu straeon yng Nghymru ac o gwmpas y byd, i helpu i newid polis"iau ac adeiladu dealltwriaeth ac undod





Monitro llechfeddiant anghyfreithlon gyda dr6n yn Amazon Brasil
**Drone pilot monitoring illegal encroachment in the Brazilian Amazon**
© CAFOD/Hay

## Forest protection, restoration and tree growing

In goal 1, we will:

rive.

th

**Ein nodau Strategol**

# Nod 2


## Addysg a grymuso ieuenctid

Helpu pobl ifanc a chymunedau i ddysgu am goedwigoedd trofannol ac i'w diogelu, i danio chwilfrydedd, ac i deimlo'n hyderus i gymryd camau cadarnhaol dros yr hinsawdd.

Mae pobl ifanc yn pryderu'n fawr am yr argyfwng hinsawdd a natur, gyda 70 y cant o bobl ifanc yn y DU yn poeni am y byd y byddant yn ei etifeddu, eto mae llawer yn teimlo fel nad ydynt yn gallu gwneud dim i helpu.[4] Mae gan addysg rôl allweddol mewn troi'r pryder hwn yn obaith, hyder, ac yn gamau sydd yn gallu helpu go iawn. Drwy roi'r wybodaeth sydd ei hangen am newid hinsawdd, coedwigoedd trofannol, a chyfiawnder byd-eang i bobl ifanc yng Nghymru, gallwn eu helpu i ddod yn ddinasyddion gwybodus sydd yn cymryd camau cadarnhaol heddiw. Mae penderfyniadau sydd yn cael eu gwneud mewn ysgolion, cartrefi a sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru yn gallu effeithio go iawn ar goedwigoedd trofannol a chymunedau, oherwydd bod y pethau rydym yn eu prynu a'r polisiau rydym yn eu dewis yma yng Nghymru yn gallu cael effaith ar draws y byd. Mae dysgu pobl am yr hinsawdd a choedwigoedd yn cefnogi ymddygiad moesegol, yn cryfhau ymlyniad tymor hir, yn cyd-fynd â'r cwricwlwm i Gymru a deddfwriaethau a pholisïau Cymru, ac yn helpu i adeiladu Cymru decach, iachach, a mwy cyfrifol ar lefel fyd-eang.

**Yn nod 2, byddwn yn cyflawni'r canlynol:**

- Sicrhau bod addysgu plant am yr hinsawdd a choedwigoedd trofannol yn dod yn rhan graidd o beth sy'n cael ei ddysgu mewn ysgolion, trwy gyfrwng adnoddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, a hyfforddiant i athrawon
- Cefnogi athrawon ac arweinwyr ysgolion i addysgu plant mewn ffordd sy'n cynnwys disgyblion, teuluoedd, a chymunedau
- Creu mwy o lwybrau i ysgolion ddod yn Hyrwyddwyr Dim Datgoedwigo
- Ysbrydoli a rhoi'r sgiliau i bobl ifanc i ddylanwadu ar y sawl sy'n gwneud penderfyniadau, ac i wneud dewisiadau cyfrifol ynghylch siopa'n foesegol, deietau iach, a chyfiawnder hinsawdd
- Ymgysylltu gyda chymunedau a grwpiau sydd yn cael eu tangynrychioli ar draws Cymru, eu helpu nhw i godi eu lleisiau, a mynd i'r afael â phryder am yr hinsawdd trwy gymryd camau cadarnhaol.



Victoria, Swyddog Allgymorth Addysg yn arwain gweithdy ysgol.
**Education Outreach Officer Victoria delivering a school workshop**



Our strategic goals

# Goal 2

## Education and youth empowerment

Inspiring young people and communities to connect with and help protect tropical forests, spark curiosity and feel empowered to take positive climate action.

Young people are deeply concerned about the climate and nature crisis, with 70 per cent of young people in the UK worried about the world they will inherit, yet many feel powerless to act.[4] Education has a critical role in turning this anxiety into hope, confidence, and meaningful action. By equipping young people in Wales with knowledge about climate change, tropical forests, and global justice, we can empower them to become informed citizens and active changemakers today. Decisions made in Welsh schools, homes, and public institutions directly affect tropical forests and communities through consumption and policy choices, meaning local action can have global impact. Embedding climate and forest education supports ethical behaviour, strengthens long-term engagement, and aligns with the Welsh curriculum, Welsh legislation and policies, helping to build a fairer, healthier, and more globally responsible Wales.

**In goal 2, we will:**

- Embed climate and tropical forest education in schools through curriculum-aligned resources and teacher training
- Support teachers and school leaders to deliver learning that reaches pupils, families, and communities
- Expand pathways for schools to become Deforestation Free Champions
- Inspire and equip young people to influence decision-makers and take action on ethical consumption, healthy diets, and climate justice
- Engage communities and underrepresented groups across Wales, amplifying voices and tackling climate anxiety through positive action

Catrin, Swyddog Allgymorth Addysg yn mapio coedwigoedd trofannol y byd

**Education Outreach Officer Catrin mapping the tropical rainforests of the world**

## Ein nodau Strategol

# Nod 3

## Gwneud cymru'n genedl dim datgoedwigo

**Helpu Cymru i ddod yn genedl dim datgoedwigo.**

Un o brif achosion datgoedwigo ydy'r galw byd-eang am nwyddau sy'n peri risg i goedwigoedd fel soia, cig eidion, olew palmwydd, coco, coffi, a phren. Mae'r eitemau hyn yn cael eu defnyddio mewn cadwyni cyflenwi bob dydd, ond nid yw'r rhan fwyaf o bobl sydd yn prynu'r nwyddau hyn yn ymwybodol o hyn. Mae angen ardal cyfwerth â 40 y cant o faint Cymru dramor i gynhyrchu'r nwyddau sydd yn cael eu mewnforio i Gymru. Mae tua 30 y cant o'r tir hwn mewn gwledydd sydd yn cael eu categoreiddio fel gwledydd ble mae'r risg o ddatgoedwigo a niwed cymdeithasol yn uchel neu'n uchel iawn. Mae'r nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â mewnforio soia, coco, olew palmwydd, a rwber i Gymru yn unig yn cyrraedd 1.5 miliwn tunnell o $CO_2e$ bob blwyddyn, sy'n cyfateb i 22 y cant o allyriadau trafnidiaeth Cymru.[5] Mae gan Gymru gyfle go iawn i arwain y byd trwy ddod y genedl dim datgoedwigo gyntaf. Diolch i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, a rhwydwaith cynyddol o ysgolion, busnesau, a chymunedau sy'n ymwybodol o'r hinsawdd, gall Cymru ddangos sut mae'r dewisiadau sydd yn cael eu gwneud yng Nghymru yn cael effaith ar draws y byd, ac yn helpu i ddiogelu ac adfer coedwigoedd trofannol. I gael yr effaith fwyaf a chreu'r newid mwyaf sylweddol, byddwn yn targedu'r ardaloedd lle mae gan Gymru'r pŵer i weithredu o dan bwerau datganoli a hefyd, yn defnyddio ein llais i ddylanwadu ar ddeddfwriaethau hanfodol Llywodraeth y DU.

Mae bod yn genedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang yn gallu cyflwyno manteision go iawn i Gymru hefyd. Drwy leihau ôl-troed Cymru ar draws y byd, gallwn gryfhau systemau bwyd lleol, cefnogi ffermwyr yng Nghymru, gwella iechyd y cyhoedd, creu swyddi gwyrdd, a chryfhau ei gwydnwch hirdymor i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd.

**Yn nod 3, byddwn yn cyflawni'r canlynol:**

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac Aelodau'r Senedd i gynnwys ymrwymiadau dim datgoedwigo ar draws deddfwriaethau a'r strategaeth hinsawdd.
- Cael pob cyngor yng Nghymru i lofnodi'r Siarter Hyrwyddwyr Dim Datgoedwigo erbyn 2030.
- Newid arferion caffael cyhoeddus i ddileu datgoedwigo o gadwyni cyflenwi ar draws Cymru.
- Gweithio gyda busnesau yng Nghymru i sicrhau nad yw eu cadwyni cyflenwi yn cynnwys cynhyrchion sydd yn achosi datgoedwigo.
- Helpu i newid system fwyd Cymru fel ei bod yn cynhyrchu bwyd yn lleol, yn gynaliadwy, mewn ffyrdd sydd yn adfer natur ac sydd ddim yn achosi datgoedwigo.
- Symud buddsoddiadau pensiwn sector cyhoeddus Cymru i ffwrdd o gwmnïau neu ddiwydiannau sy'n dinistrio coedwigoedd, a'u buddsoddi nhw mewn rhai moesegol, sydd ddim yn achosi datgoedwigo ac sy'n adfer coedwigoedd.
- Cael cymunedau i gymryd rhan weithredol ar draws Cymru trwy gyfrwng ymgyrchoedd cyhoeddus, i leihau ôl troed Cymru ar draws y byd, ac i greu newidiadau ar draws y system.

**Our strategic goals**

# Goal 3

## Deforestation-free

## Wales

**Mobilising Wales to become a deforestation-free nation.**

Deforestation is driven by global demand for forest-risk commodities such as soy, beef, palm oil, cocoa, coffee, and timber, which are embedded in everyday supply chains but largely invisible to consumers. An area equivalent to 40 per cent of the size of Wales is required overseas to produce the goods imported into Wales. Around 30 per cent of this land is in countries classified as high or very high risk for deforestation and social harm. The greenhouse gas emissions associated with Wales's imports of soy, cocoa, palm oil, and rubber alone amount to 1.5 million tonnes of $CO_2e$ each year, equivalent to 22 per cent of Wales's transport emissions.[5]

Wales has a real opportunity to lead the world by becoming the first deforestationfree nation. With the Well-being of Future Generations Act (2015) and a growing network of climate-conscious schools, businesses, and communities, Wales can show how local choices make a global difference, helping to protect and restore tropical forests. To maximise impact and bring about the most significant change, we will target the areas where Wales has the power to act under devolution and also use our voice to influence critical UK Government legislation.

Being a globally responsible nation can also bring clear benefits at home. Reducing Wales's global footprint can strengthen local food systems, support Welsh farmers, improve public health, create green jobs, and build long-term climate resilience.




**In goal 3, we will:**

- Engage the Welsh Government and Senedd Members to embed deforestation-free commitments across legislation and climate strategy
- Secure commitment for all Welsh councils to sign up to the Deforestation Free Champion Charter by 2030
- Reform public procurement to eliminate deforestation from supply chains across Wales
- Engage businesses in Wales to ensure all their supply chains are deforestation free
- Support the transformation of Wales's food system toward local, sustainable, regenerative, and deforestation-free production
- Shift Welsh public-sector pension funds away from forest destruction and toward ethical, deforestation-free, and regenerative alternatives
- Mobilise communities across Wales through public campaigns to reduce Wales's global footprint and drive systemic change

# Ein partneriaethau a chydweithio



Myfyrwyr o Gymru a phobl y Guarani o Frasil yn codi ymwybyddiaeth am effaith ffermio soi diwydiannol ar goedwigoedd trofannol
**Welsh students and Guarani people from Brazil, raise awareness of the impact of industrial soy farming on tropical forests**
© Casper Thukstup, Hempel Foundation

# Our partnerships and collaborations

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda chymunedau a sefydliadau yng Nghymru ac ar draws y byd i ysgogi gweithredu ar yr hinsawdd a natur.

Ar lefel ryngwladol, rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar Bobl Frodorol a chymunedau coedwigoedd mewn ardaloedd trofannol, ac ar gymunedau lleol bregus sydd yn cael eu heffeithio fwyaf gan newid hinsawdd, gan gynnwys menywod, pobl ifanc, a ffermwyr mân-ddaliadau.

Yng Nghymru, rydym yn gweithio'n agos gyda llywodraethau, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus, busnesau, ffermwyr, ysgolion, a grwpiau cymunedol i ddylanwadu ar bolisïau, cadwyni cyflenwi, a dewisiadau bob dydd. Rydym yn gweithio gyda Chyrff Anllywodraethol, cyllidwyr, a rhwydweithiau cymdeithas sifil i gynyddu ein heffaith, i gysylltu ymdrechion lleol gyda newid byd-eang, ac i sicrhau bod cyfiawnder a thegwch wrth galon ein gwaith.

Rydym yn gweithio i sicrhau bod cynhyrchion sydd wedi'u cysylltu â dinistrio coedwigoedd trofannol yn cael eu dileu o economi Cymru cyn gynted â phosibl. Drwy gynnwys y cyhoedd, busnesau, a gwleidyddion, rydym yn arwain ymdrechion i geisio cael cadwyni cyflenwi clir a chynaliadwy, ac i greu newidiadau mewn polisi sy'n dileu olion traed Cymru dramor. Mae hyn yn sicrhau nad yw'r pethau rydym yn eu prynu yng Nghymru yn cyfrannu at ddatgoedwigo dramor rhagor.

We work in partnership with communities and organisations locally and globally to drive climate and nature action.

Internationally, our primary focus is on Indigenous Peoples and forest communities in tropical regions, as well as vulnerable local communities most aff ected by climate change, including women, young people, and small-scale farmers.

In Wales, we work closely with the governments, local authorities, public bodies, businesses, farmers, schools, and community groups to infl uence policy, supply chains, and everyday choices. We also collaborate with trusted NGO partners, funders, and civil society networks to amplify impact, connect local action to global change, and ensure justice and equity are at the heart of all our work.

We work to ensure that products linked to tropical forest destruction are phased out of the Welsh economy as rapidly as possible. By engaging the public, businesses, and politicians, we advocate for transparent, sustainable supply chains and policy shifts that eliminate Wales' international footprint, ensuring our domestic consumption no longer drives deforestation abroad.

# Ein pileri sylfaenol

Er mwyn llywio ein gwaith yn ystod y cyfnod pwysig rhwng 2026–2030, mae Maint Cymru yn cryfhau pum piler sylfaenol. Y pileri ydy'r rhain sy'n ein helpu ni i aros yn gryf, yn foesegol, ac yn effeithiol yn ein gwaith o ddiogelu coedwigoedd trofannol y byd a'u gwarcheidwaid.

## 1

### Cyllid Cynaliadwy a Gwydn

Mae cyllid cynaliadwy a gwydn yn hanfodol i ddiogelu ac adfer coedwigoedd ar y raddfa sydd ei hangen i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Rydyn ni'n gweithio tuag at sicrhau model o wydnwch ariannol, hirdymor. Drwy adeiladu partneriaethau hirdymor gyda sefydliadau mawr, ymddiriedolaethau, a phartneriaid corfforaethol, a thrwy gynyddu amrywiaeth ein ffrydiau incwm, byddwn yn sicrhau bod ein gwaith yn cael ei ariannu'n llawn ac yn cael ei gefnogi gan adnoddau dibynadwy, hirdymor. Byddwn yn canolbwyntio ar gynyddu cronfeydd anghyfyngedig trwy ymgyrchoedd
fydd yn cael effaith fawr fel y Big Give, sy'n rhoi'r hyblygrwydd i ni i ymateb yn gyflym i fygythiadau newydd i'r hinsawdd, ac i ddarparu cymorth yn gyflym i'n partneriaid coedwigoedd pan maen nhw ei angen fwyaf.

## 2

### Llywodraethu Moesegol a Chryf

Byddwn yn parhau i gryfhau ein prosesau llywodraethu drwy gynnal safonau uchel o dryloywder a chyfiawnder, a sicrhau bod ein strwythurau yn cyfateb i gymhlethdod yr argyfwng byd-eang rydym yn eu hwynebu. Bydd ein Bwrdd Ymddiriedolwyr yn parhau i gynnig arbenigedd mewn sawl maes – o ecoleg drofannol, eiriol ar lefel rhyngwladol a chenedlaethol, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, diogelu a chyfathrebu digidol. Trwy is-bwyllgorau arbenigol fel y rheiny sy'n canolbwyntio ar Foeseg, Staff a Llesiant, Cyllid, a Risg, byddwn yn sicrhau bod pob penderfyniad yn seiliedig ar dystiolaeth, yn gyfreithlon, ac yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i fod yn sefydliad sy'n "gyfrifol ar lefel fyd-eang" yng Nghymru. Byddwn yn parhau i gryfhau ein systemau rheoli risg ac yn cynnal polisïau diogelu cryf i sicrhau diogelwch a llesiant ein staff, partneriaid, a'r cymunedau rydym yn gweithio gyda nhw. Byddwn yn blaenoriaethu dysgu ac atebolrwydd hefyd, ac yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i ddeall beth sy'n gweithio, yn addasu ein ffyrdd o weithio, ac yn parhau i wneud ein rhaglenni'n well ac yn fwy teg i bawb.

## 3

### Tîm Gwydn, Ystwyth a Grymus

Byddwn yn parhau i adeiladu diwylliant sefydliadol sydd yn grymuso pobl i weithredu a gwneud penderfyniadau, mewn amgylchedd diogel a chefnogol, lle mae gan y staff ryddid i arwain rhaglenni a datblygu syniadau newydd. Drwy osod llesiant yng nghalon ein sefydliad, gyda


chefnogaeth is-bwyllgor a hyrwyddwr iechyd meddwl, byddwn yn sicrhau bod ein tîm yn teimlo'n hapus, a'u bod yn cael eu cefnogi ac yn teimlo'n frwdfrydig ac yn wydn yn eu gwaith hirdymor ym maes cyfiawnder hinsawdd. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein tîm talentog ac ymroddedig trwy gyfrwng hyfforddiant a datblygiad parhaus, ac yn sicrhau bod ein sgiliau'n parhau i fod mor gryf â'r heriau sydd o'n blaenau.

## 4

### Adrodd Straeon sy'n Creu Effaith ar Draws y Byd

Fel y prif gyswllt rhwng Cymru a choedwigoedd trofannol y byd, byddwn yn adrodd straeon moesegol, dwyieithog, seiliedig ar ddata i annog pobl i weithredu. Rydym yn gwella ein presenoldeb digidol ar y cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan, fel ein bod yn dod yn elusen y mae pawb yn troi ati i gael atebion ar yr hinsawdd. Drwy ganolbwyntio ar lais Pobl Frodorol a chreu cynnwys ffres a chreadigol, byddwn yn parhau i gysylltu hunaniaeth Cymru gyda diogelu coedwigoedd ar draws y byd, ac yn





gwneud "Maint Cymru" yn symbol o obaith ac adferiad ar draws y byd.

## 5

### Integreiddio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Dydy Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant (EDI) ddim yn nodau ychwanegol; maen nhw'n siapio popeth rydym yn ei wneud. Rydyn ni'n cydnabod bod yr argyfwng hinsawdd yn effeithio'n fwy difrifol ar y bobl hynny sydd yn cael eu hymyleiddio'n barod gan anghydraddoldebau systemig. Rydym wedi ymrwymo i fod yn wrth-hiliol ac i weithio mewn ffordd sy'n cydnabod sut mae gwahanol fathau o anghydraddoldeb yn gorgyffwrdd. Byddwn yn cryfhau ein harferion mewnol ac yn defnyddio ein llwyfan i godi llais grwpiau sydd yn cael eu tangynrychioli. Byddwn yn parhau i adolygu ein harferion recriwtio, llywodraethu, a'n harferion sefydliadol, i sicrhau eu bod yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gyfiawnder a chynhwysiant. Byddwn yn blaenoriaethu partneriaethau teg a chyfartal gyda Phobl Frodorol a chymunedau lleol, ac yn cydnabod eu bod yn arwain y gwaith o ddiogelu coedwigoedd a bioamrywiaeth. Rydym yn rhannu ein cynnydd mewn perthynas â'n gwaith ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn agored gyda'r cyhoedd, ac yn sicrhau bod ein taith tuag at gyfiawnder yn dryloyw i'n partneriaid a'n cefnogwyr.

# Our foundational pillars

To navigate the critical window of 2026–2030, Size of Wales is strengthening five foundational pillars. These are the structural supports that allow us to remain a resilient, ethical, and high-impact advocate for the world's tropical forests and their guardians.

## 1

### Sustainable and Resilient Finance

Sustainable and resilient finance is essential to protecting and restoring forests at the scale required to address the climate and nature crises. We are transitioning towards a

model of longterm financial resilience. By securing multi-year partnerships with institutional donors, trusts, and corporate partners and diversifying our income streams, we will ensure our work is supported by full-cost recovery and stable long-term resources. We will prioritise the growth of unrestricted income through high-leverage campaigns, such as the Big Give, giving us the flexibility to respond to emerging climate threats and provide agile support to our forest partners.

# 2

## Ethical and Strong Governance

We will continue to strengthen governance across the organisation, upholding the highest standards of transparency and integrity, while ensuring our structures reflect the complexity of the global crises we face. Our Board of Trustees will continue to provide multidisciplinary expertise, from tropical ecology and international and national advocacy to EDI, safeguarding and digital communications. Through specialised sub-committees such as those focused on Ethics, Staff and Wellbeing, Finance, and Risk, we will ensure every decision is evidence-based, legally sound, and aligns with our commitment to being a “globally responsible” organisation. We will continue to strengthen our risk management systems and maintain robust safeguarding policies to ensure the safety and wellbeing of our staff , partners, and the communities we work with. We will also prioritise learning alongside accountability, working closely with partners to reflect on what works, adapt our approaches, and continuously improve the effectiveness and equity of our programmes.

# 3

## A Resilient, Agile and Empowered Team

Our core strength as an organisation lies in our people and the relationships we nurture both internally and externally. We will continue to cultivate an organisational culture rooted in agency and psychological safety, where team members have the autonomy to lead programmes and drive innovation. By embedding well-being at the heart of the organisation, supported by a dedicated sub-committee and mental health champion, we will ensure our team feels happy, and is supported, motivated and resilient in the long-term work of climate justice. We will continue to invest in our talented and dedicated team through continuous learning, ensuring our skills remain as strong as the challenges we seek to address.

# 4

## Impactful Storytelling and Global Reach

As the primary bridge between Wales and the world’s tropical forests, we will use data-driven, ethical, bilingual storytelling to turn awareness into action. We are evolving our digital work across social media and our web platforms, to be a “go-to” charity for climate solutions. By focusing on the voices of Indigenous Peoples and using creative, fresh content, we will continue to link local Welsh identity to global forest protection, making the “Size of Wales” a universal metric for hope and restoration.

5

## Embedded Equality, Diversity and Inclusion

Equality, Diversity, and Inclusion (EDI) are not peripheral goals; they are the lens through which we view all our work. We recognise that the climate crisis disproportionately affects those already marginalised by systemic inequality. We are committed to an anti-racist and intersectional approach, shoring up our internal practices while using our platform to amplify underrepresented voices.  We will continue to review our recruitment, governance, and organisational practices to ensure they reflect our commitment to equity and inclusion. We will prioritise equitable partnerships with Indigenous Peoples and local communities, recognising their leadership in protecting forests and biodiversity. We hold ourselves publicly accountable by sharing our EDI progress, ensuring our journey toward justice is transparent to our partners and supporters.

# Ein hegwyddorion canllaw

### Canolbwyntio ar y gymuned, cyfranogol a chynhwysol

Rydym yn gweithio ochr yn ochr â chymunedau y mae eu lleisiau yn aml iawn ddim yn cael eu clywed. Mae ein gwaith yn cael ei siapio gan brofiadau bywyd, yn cael ei arwain gan ein partneriaid coedwigoedd, ac wedi'i gynllunio i gael gwared â rhwystrau fel bod pawb yn gallu cymryd rhan mewn creu newid.

### Cydweithredol

Rydym yn credu bod newid parhaol yn digwydd trwy weithio mewn partneriaeth yn lleol ac ar draws y byd. Drwy ymddiried a chefnogi ein gilydd, rydym yn cryfhau effaith ac yn dysgu oddi wrth ein gilydd

### Yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn canolbwyntio ar atebion

Rydym yn canolbwyntio ar atebion ymarferol sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth, gwyddoniaeth, a gwybodaeth Frodorol a lleol, ac yn cyfuno dysgu gyda gweithredu i greu effaith go iawn.

### Hyrwyddo cyfiawnder, gofal a byw'n dda

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu tegwch, gofal, a llesiant i bobl a'r blaned — ar gyfer ein tîm ein hun, i Bobl Frodorol ac i gymunedau lleol ar draws y byd. Rydym yn cydnabod bod yr argyfwng hinsawdd yn gwaethygu anghydraddoldebau presennol a bod Cymru, fel gwledydd eraill y Gogledd Byd-eang, wedi cyfrannu at y niwed hwn. Trwy ein gwaith yng Nghymru ac yn rhyngwladol, rydym yn ceisio mynd i'r afael â'r etifeddiaeth hon, a chefnogi dyfodol mwy iach a mwy cyfiawn i gymunedau a choedwigoedd fel ei gilydd.

### Gweithio'n strategol, gyda phwrpas


Rydym yn targedu ein hymdrechion ble maen nhw'n gallu gwneud y dylanwad mwyaf, ac yn gweithio i ddylanwadu ar bolisïau, systemau, ac ymddygiadau ar lefel leol, genedlaethol ac ar draws y byd i greu newid parhaol.

### Moesegol ac atebol

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r safonau uchaf o onestrwydd, tryloywder, ac ymddygiad moesegol. Rydym yn dysgu oddi wrth eraill, yn gweithredu'n gyfrifol, ac yn cyfrif ein hunain yn atebol am ein penderfyniadau a'n heffaith.

Eiriol yn gryf ac yn hyderus

# Our guiding principles



Disgyblion o Ysgol Uwchradd Mbale yn plannu coed mango
**Students from Mbale Secondary School planting mango trees**

## Community-focused, participatory and inclusive

We work alongside communities whose voices are too often unheard. Our work is shaped by lived experience, guided by our forest partners, and designed to remove barriers so everyone can take part in creating change.

## Collaborative

We believe lasting change happens through partnership locally and globally. By working together in trust and solidarity, we strengthen impact and learn from one another.

## Promote justice, care and living well

We are committed to fairness, care, and wellbeing for people and planet, from our own team to Indigenous Peoples and local communities worldwide. We recognise that the climate crisis deepens existing inequalities and that Wales, like other Global North countries, has contributed to this harm. Through our work in Wales and internationally, we seek to address this legacy and support healthier, more just futures for communities and forests alike.

## Evidence-based and solutionsfocused

We focus on practical solutions grounded in evidence, science, and Indigenous and local knowledge, combining learning with action to create real impact.

## Focused and strategic

We target our efforts where they can deliver the greatest impact, working to influence policy, systems, and behaviours at local, national, and global levels to drive lasting change.

## Ethical and accountable

We are committed to the highest standards of honesty, transparency, and integrity. We learn from others, act responsibly, and hold ourselves accountable for our decisions and impact.

## Bold and courageous advocacy

We are a strong, independent voice for the climate, biodiversity, and the world's tropical forests. We speak truth to power and advocate for the urgent systemic changes needed to protect our planet and the Indigenous Peoples and local communities, who are the guardians of these vital ecosystems.

# Galwad i weithredu

Nid datganiad bwriad yn unig yw'r cynllun hwn; ond **galwad i weithredu**

Gyda'n gilydd, byddwn yn adeiladu **planed iach** ble mae pobl, coedwigoedd a natur yn ffynnu gyda'i gilydd.

# A call to action

This plan is not just a statement of intent; it is a **call to action**

In collaboration, we will build a **healthier planet** where people, forests and nature thrive together.



Meithrinfa goed Bumaena, Uganda
**Bumaena tree nursery, Uganda**




1. United Nations Environment Programme. (2019). Emissions Gap Report 2019. UNEP. https://www.unep.org/resources/emissions-gap-report-2019
2. Goldman, E., Carter, S. and Sims, M. (2025, 21 May). Fires Drove Record-breaking Tropical Forest Loss in 2024. World Resources Institute, Global Forest Review. https://gfr.wri.org/latest-analysis-deforestation-trends
3. Krogh, A. (2021). State of the tropical rainforest. The complete overview of the tropical rainforest, past and present. Rainforest Foundation Norway. https://www.regnskog.no/uploads/documents/Publikasjoner/Andre-rapporter/RF_StateOfTheRainforest_2020.pdf
4. Save the Children (2022, November 4). Survey reveals scale of climate anxiety among British children on eve of COP27. Save the Children. https://www.savethechildren.org.uk/news/media-centre/press-releases/2022/survey-reveals-scale-of-climate-anxiety-among-british-children-on-eve-of-cop27
5. Buckland-Jones, S., Cooper, H., Evans, R., Jennings, S., Munkedal, C. and Rahman-Daultry, K. (2021). Wales and Global Responsibility: Addressing Wales' Overseas Land Footprint. WWF Cymru, RSPB Cymru, Size of Wales. https://www.wwf.org.uk/sites/default/files/2021-11/wwf_risky_b_wales.pdf



Size of Wales
Maint Cymru

sizeofwales.org.uk


Size of Wales
Maint Cymru